



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Adroddiad Monitro ar y Safonau Iaith Gymraeg

**Yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd rhwng 1 Awst
2020 hyd at 31 Gorffennaf 2021**

Cyflwyniad

Mae dyletswydd statudol ar Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ers 1af Ebrill 2018. Mae'r adroddiad monitro hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021.

Mae'r cyfrifoldeb am oruchwylio cydymffurfiaeth mewnol y Safonau iaith yn aros gyda Dirprwy Is-ganghellor y Brifysgol, gyda Rhagoriaith (Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol) ac Adran Adnoddau Dynol y Brifysgol yn ymgymryd â rolau allweddol yng ngweithrediad gweithredol y Safonau.

Fel y bydd yn wir am bob sefydliad arall ar draws Cymru, mae'r Brifysgol wedi wynebu heriau oherwydd pandemig y Coronafeirws, ac yn parhau i wneud hynny, ond mae ei gwaith yn hyrwyddo'r Gymraeg wedi parhau, yn ogystal ag annog staff i ddatblygu eu sgiliau ac annog myfyrwyr i ddefnyddio eu Cymraeg.

Y Brifysgol

Yn ei Chynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2017-2022 mae'r Brifysgol yn nodi mai ei gweledigaeth yw 'bod yn brifysgol i Gymru, gydag ymrwymiad i les a threftadaeth y genedl yn greiddiol i bopeth a wnawn.' Un o'i saith o werthoedd creiddiol yw 'Cymru a'i chymeriad arbennig' gan 'ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog Cymru.'

Ei gweledigaeth yw bod yn Brifysgol i Gymru gan hyrwyddo ac ymgorffori system addysg sector deuol sy'n addysgu dysgwyr o bob oed a chefnidir, ac sy'n ysgogi datblygiad economaidd o fewn ei rhanbarth, ar draws Cymru a thu hwnt.

Fel y sefydliad addysg uwch hynaf yng Nghymru, bydd y Brifysgol yn dathlu ei dau-ganmlwyddiant yn 2022.

Mae'r Brifysgol yn gartref i nifer cynyddol o sefydliadau a busnesau o bwys yng Nghymru, gyda phencadlysoedd Theatr Genedlaethol Cymru, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a S4C wedi eu lleoli ar ei champws yng Nghaerfyrddin.

Y Safonau

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sicrhau bod i'r Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae hefyd yn fodd o sefydlu fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar gyrfn cyhoeddus i gydymffurfio â safonau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Bwriad y Safonau hyn yw:

- darparu eglurder i sefydliadau am eu dyletswyddau ym ymwneud â'r Gymraeg;
- darparu eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallent ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau Cymraeg a gwella'u hansawdd.

1. Llywodraethiant a Monitro

- Pwyllgor y Gymraeg sy'n gyfrifol am fonitro'r modd y mae'r sefydliad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Bydd y Cadeirydd hefyd yn gyfrifol am ddiweddaru'r Senedd ac Is-Bwyllgor Llywodraethiant y Cyngor ynghylch y modd y mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â'r Safonau.
- Yn dilyn ei phenodiad ym mis Rhagfyr 2018, Cydlynnydd Tîm Rhagoriaith: Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol, sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth ddyddiol y Brifysgol â'r Safonau. Bydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer holl staff y sefydliad yng nghyd-destun y Safonau Iaith gan hefyd gefnogi'r disgyblaethau academiaidd/unedau proffesiynol o ddydd i ddydd.
- Sefydlodd y Brifysgol Bwyllgor Monitro'r Safonau Iaith yn ystod 19-20 i fonitro cynnydd a chydymffurfiaeth a sicrhau gweithredu. Mae aelodaeth y Brifysgol yn cynnwys staff allweddol o amrywiol adrannau ynghyd â dau aelod allanol. Gwahoddwyd aelod o Gyngor y Brifysgol i gadeirio'r Pwyllgor Monitro. Parhaodd y Pwyllgor i gyfarfod ar-lein yn ystod 20-21 a chafwyd cyflwyniad gan Bennaeth yr Uned Adnoddau Dynol am gynllunio'r gweithlu a'r Gymraeg yn un o'r cyfarfodydd.
- Yn ystod y flwyddyn o dan sylw, ymatebodd y Brifysgol i geisiadau gan y Comisiynydd yn gofyn am wybodaeth sef:
 - a. Holiadur Astudiaeth Thematig ynghylch effaith yr argyfwng Covid-19 ar ddarpariaeth Gymraeg
 - b. Yr ymgynghoriad ar y Cod ymarfer drafft
 - c. Holiadur Cydymffurfiaeth â'r Safonau atodol
- Mae'r Brifysgol hefyd yn ceisio defnyddio Adroddiad Sicrwydd blynyddol y Comisiynydd sy'n amlygu enghreifftiau o arfer dda i sefydliadau, ac sy'n gweithredu fel sail i brofiad cwsmeriaid a chydymffurfiaeth. Yn yr un modd, mae staff yn mynychu seminarau arferion llwyddiannus a drefnir gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg lle rhennir arferion da gan sefydliadau ledled Cymru.

Mynychodd y Cydlynnydd Tîm a Swyddog Gweithredol Polisi a Chynllunio y seminar am y safonau llunio polisi a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020.

2. Cyraeddiadau a Chydymffurfiaeth

Cyflawnwyd rhai datblygiadau allweddol yn ystod y cyfnod adrodd sy'n amlygu ymrwymiad y Brifysgol i gynyddu a gwella ei gwasanaethau Cymraeg i fyfyrwyr a staff:

- Ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd, cyhoeddwyd fideo at sylw'r holl fyfyrwyr newydd yn egluro'r gefnogaeth a'r cymorth a oedd ar gael i siaradwyr Cymraeg. Roedd y fideo yn cynnwys gwybodaeth am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Safonau Iaith, y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg yn cynnwys Rhagoriaith a Pheniarth, y Dystysgrif Sgiliau Iaith, Canolfan S4C Yr Egin a'r Atom yn nhref Caerfyrddin.
- Datblygodd y Brifysgol fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith a lansiwyd yn ffurfiol i staff gan yr Is-Ganghellor ym mis Hydref. Tynnwyd sylw at bwysigrwyd yr adnodd a bod gofyniad ar bob aelod o staff i'w gwblhau. Wrth gyfathrebu unrhyw negeseuon am y Safonau Iaith yn y Bwletin i Staff, rhoddir neges i atgoffa staff o'r angen i gwblhau'r modiwl. Mae'r modiwl yn cael ei deilwra ar gyfer myfyrwyr ar hyn o bryd a bydd ar gael yn ystod 21/22.
- Crëwyd dau fideo ar gyfer diwrnod hawliau'r Gymraeg ym mis Rhagfyr. Rhyddhawyd un fideo ar y cyfryngau cymdeithasol i fyfyrwyr yn eu hatgoffa a'u hannog i ddefnyddio'u hawliau i dderbyn gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. Anfonwyd y fideo hefyd at fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n aelodau o Gangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Roedd yr ail fideo i staff gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a'u hatgoffa am hawliau Cymraeg myfyrwyr wrth dderbyn gwasanaeth gan y Brifysgol. Pwysleisiwyd yn yr erthyglau yn y Bwletin i Staff a'r fideo mai cyfrifoldeb y Brifysgol yw darparu gwasanaethau sy'n diwallu'r hawliau hynny ac atgoffwyd staff am ganllawiau'r Safonau a'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith.
- Yn unol â Diwrnod Hawliau'r Comisiyndd, dyluniwyd neges am Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg i roi ar faner symudol ar dudalen gartref mewnwyd y Brifysgol er mwyn ceisio denu sylw myfyrwyr a staff.
- Cynhaliwyd Gŵyl y pethau bychain am bythefnos yn ystod cyfnod Gŵyl Dewi gyda nifer o weithgareddau wedi'i drefnu ar-lein. Mae 'Gwnewch y pethau bychain' yn ymadrodd adnabyddus a ddywedodd Dewi Sant mewn pregeth i'w ddilynwyr. Roedd yr ŵyl yn annog staff i ddysgu Cymraeg a hyfyd yn arddangos llawer o weithgareddau cyfrwng Cymraeg a Chymreig y Brifysgol.

Dydd Gŵyl Dewi Hapus i chi gyd!



Ymunwch yng ngweithgareddau a digwyddiadau 'Pethau Bychain' heddiw yma: <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/pethaubychain/>

- 10am: Lansio her 'Cerdded Cymru i Gicio'r Clo' <https://www.youtube.com/watch?v=RdNwV6ghivA&feature=youtu.be>
- 11am: Lansiad adnodd Profion Ffitrwydd yr Athrofa Iechyd a Rheolaeth <https://www.youtube.com/watch?v=9mcDVuzrFy0&feature=youtu.be>
- 12.30pm: Gwasanaeth Gŵyl Dewi - <https://bit.ly/2NA8q43>
- 1.30pm: Sesiwn flasu cyrsiau Plentynod, Ieuenctid ac Astudiaethau Addysg
- 2pm: O Gymru, BA Perfformio, BA Vocal Studies ac MA Perfformio – tudalen Facebook y Brifysgol: <https://www.facebook.com/drindoddewisant>
- 2-3pm: Sesiwn flasu gwersi Cymraeg - Lefel Mynediad i Staff y Drindod Dewi Sant
- 3-4pm: Sesiwn flasu gwersi Cymraeg - Lefel Sylfaen i Staff y Drindod Dewi Sant
- 4pm: Darlith Flynyddol a Gwobrau Coleg Celf Abertawe
[Gwylwch y ddarlith yn y Gymraeg yma o 4yp ar y 1af o Fawrth.](#)
[Gwylwch y ddarlith yn Saesneg yma o 4yp ar y 1af o Fawrth.](#)
[Gwylwch y gwobrau yn ddwyieithog yma o 4yp ar y 1af o Fawrth.](#)
- Cystadleuaeth Pice ar y Maen Y Gym Gym
- 5pm: Sesiwn anffurfiol i ddathlu Gwobrau Dydd Gŵyl Dewi Coleg Celf Abertawe 2021- Staff a Myfyrwyr.
Join Zoom Meeting <https://uwtsd-ac-uk.zoom.us/j/98789093609?pwd=eXJqZXVINEFHZ3AzaS9IL2J1RCtnZz09>
Meeting ID: 987 8909 3609 Passcode: 133233

- Yn ystod y cyfnod adrodd, atgoffwyd staff am gyfeiriad e-bost sydd wedi'i greu ar gyfer staff y Brifysgol sy'n dymuno cyngor ynghylch y Gymraeg.
- Darparwyd cyngor hefyd i amryw o unedau proffesiynol megis yr Uned Gyllid, Uned Gwasanaethau Myfyrwyr, Yr Uned Farchnata, Yr Uned Ymchwil a Datblygu, Y Gofrestrfa a Derbynfeydd y campysau amrywiol. Roedd y cyngor hwn yn amrywio o ymateb i ymholiadau arferol i gyfarfodydd mwy ffurfiol a/neu gyflwyno yn ôl y gofyn.
- Cynigwyd cyrsiau Cymraeg i'r holl staff ar draws yr holl gampysau ar wahanol lefelau gan y cynhelir y cyrsiau i gyd ar-lein. Parhaodd hyn drwy gydol y cyfnod gyda darpariaeth ar-lein wythnosol. (Safonau 138, 139)
- Er bod campysau'r Brifysgol yn hanesyddol yn amrywio'n ddifawr yn eu defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, gwelwyd llawer mwy o gysondeb yn sgil cyflwyno'r Safonau a'r hyfforddiant a ddarparwyd.
- Mae tair Athrofa yn y Brifysgol ac mae Is-bwyllgor y Gymraeg wedi cael eu sefydlu ym mhob un ohonynt. Mae cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg wedi'i gynnwys ar agenda pob cyfarfod.
- Mae'r Uned Gyfieithu yn rhan allweddol o'r isadeiledd sy'n cefnogi'r Gymraeg ar draws y sefydliad. Mae'r Uned wedi mabwysiadu system benodol er mwyn blaenoriaethu gwaith cyfieithu ar draws y Brifysgol yn ystod y cyfnod adrodd i sicrhau yr ymdrinnier â cheisiadau yn y modd mwyaf effeithlon yn wyneb y galw cynyddol a'r llwyth gwaith.

- Yn olaf, cyfathrebir â'r gweithlu trwy Fwletin Staff misol y Brifysgol lle atgoffir cydweithwyr o bwysigrwydd cydymffurfio â'r Safonau ac o'r adnoddau a baratowyd yn fewnol i'w cynorthwyo yn y broses o ddelio â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Cwynion

Ni dderbyniodd y Brifysgol gwyn ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd.

4. Sgiliau Cymraeg y rheini a gyflogid gan y Brifysgol ddiwedd Gorffennaf 2021

(i) Canran y staff academiaidd a oedd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

	% Gallu addysgu	% Methu addysgu	% Ddim yn gwybod
Staff Academiaidd 2021	14.8%	63%	22.2%
Staff Academiaidd 2020	16%	62.7%	21.3%

(ii) Canran yr holl staff (cymorth a phroffesiynol) a oedd yn gallu siarad Cymraeg

	Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl	Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl	Ddim yn gallu siarad Cymraeg	Anhysbys
Canran 20/21	21.5%	23.8%	40.8%	13.9%
Canran 19/20	21.9%	23.0%	40.1%	15.1%

Nifer a chanran y staff a fynychodd hyfforddiant Cymraeg

Cwblhaodd 16 aelod o staff hyfforddiant yn ystod blwyddyn academiaidd 2020-21 i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg ac fe wnaeth 4 ohonynt sefyll arholiad ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd.

Cyrsiau/hyfforddiant a ddarparwyd trwy gyfrwng y Gymraeg i staff

Teitl	Niferoedd			Canran
	Staff Academiaidd	Gwasanaethau Proffesiynol	Cyfanswm	
Modiwl e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	5	3	8	5%
Modiwl e-ddysgu Deall Iechyd a Diogelwch	4	9	13	7%

Modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg	7	21	28	11.2%
Gweithdy Delio'n dda â newid	12	11	23	47%
Gweithdy Lles Celfyddyd Rhoi	4	7	11	100%
Beth yn union yw lechyd a Lles ein Cwricwlwm	6	1	7	100%
Hyfforddiant Cymrodoriaeth AAU	2	0	2	18.18%
Cyfanswm	40	52	92	13.4%

Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn neu linyr gwddf 'Iaith Gwaith'

Anogir holl staff y Brifysgol sy'n siaradwyr Cymraeg ac yn gweithio yn y rheng flaen wrth ddelio â'r cyhoedd i wisgo bathodyn neu linyr gwddf 'Iaith Gwaith' trwy'r Bwletin wythnosol i staff. Er na all gadarnhau yr union ffigwr, mae'r Brifysgol yn hyderus fod canran uchel y Cymry Cymraeg a oedd yn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd yn gwisgo naill ai fathodyn neu linyr gwddf 'Iaith Gwaith' yn ystod y cyfnod adrodd.

Swyddi newydd a gwag

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at nifer y swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol ynghyd â chanran y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

Blwyddyn	Nifer y swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu'n ddymunol	Nifer y swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol	Nifer y swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol	Nifer y swyddi a hysbysebwyd lle nad oedd angen sgiliau Cymraeg	Canran y penodiadau Cymraeg i swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol
20/21	207	158	49	62**	100%
19/20	106	83	23	0	100%*

*100% lle'r oedd y Brifysgol yn gallu llenwi'r swydd. Mewn rhai achosion, nid oedd y Brifysgol yn gallu llenwi'r swydd oherwydd prinder ymgeiswyr yn cwrdd â gofynion y sgiliau iaith Gymraeg hanfodol.

**Nid yw'r swyddi gwag hyn wedi'u lleoli yng Nghymru (maen nhw wedi'u lleoli ar ein campysau yn Llundain a Birmingham).

Nid yw'r Brifysgol yn gallu darparu data ar hyn o bryd ar ganran y penodiadau Cymraeg i swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol.

Targedau 2020/21

Nodir islaw ddiweddariad ynghylch y modd y cyflawnodd y Brifysgol y targedau a osododd ar gyfer y cyfnod Awst 2020 – Gorffennaf 2021.

	Targed	Cyfrifoldeb	Amserlen	Diweddariad
1.	Y Brifysgol i fabwysiadu'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn ffurfiol	Profost / Cyfarwyddydd yr Uned Adnoddau Dynol	Ebrill 2021	Penderfynwyd i ddilyn trywydd arall wrth flaenoriaethu a chanolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth
2.	Casglu data yn defnyddio'r lefelau newydd fel gwaelodlin	Cyfarwyddydd Rhagoriaith	Mai 2021	Cynhaliwyd cynllun peilota gyda nifer o Unedau Proffesiynol y Brifysgol ynghyd ac un Athrofa i sicrhau bod y lefelau newydd yn addas i'r Brifysgol
3.	Darparu hyfforddiant i reolwyr ym maes recriwtio a phenodi yng nghyd-destun y Gymraeg	Cyfarwyddydd Rhagoriaith	Mai 2021	Wedi darparu cyngor a chefnogaeth i reolwyr wrth iddynt ymgeisio i recriwtio a phenodi siaradwyr Cymraeg
4.	Cyhoeddi'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith a sicrhau bod 50% o staff yn cwblhau'r hyfforddiant erbyn diwedd Gorffennaf 2021	Cyfarwyddydd Rhagoriaith a Rheolwr Dysgu a Datblygu	Hydref 2020	Lansiwyd yr e-fodiwl gan yr Is-Ganghellor. Mae'n ofynnol bod pob aelod o staff yn ei gwblhau
5.	Llunio polisi sefydliadol ar effaith penderfyniadau ar y Gymraeg	Cyfarwyddydd Rhagoriaith	Mehefin 2021	Penodwyd aelod o staff newydd i Uned Adnoddau Dynol y Brifysgol a rhan o rôl yr aelod o staff yw i ddatblygu Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg
6.	Cynnal tair ymgyrch benodol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg	Cyfarwyddydd Rhagoriaith	Yn ystod 2020 / 2021	Cynhaliwyd ymgyrchoedd gwahanol yn ystod y flwyddyn gyda'r cyntaf ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, ar ddiwrnod hawliau'r Gymraeg ym mis Rhagfyr ac adeg Gŵyl Dewi i annog myfyrwyr i ddefnyddio'u Cymraeg
7.	Sicrhau bod y wefan sefydliadol yn	Dirprwy Is-ganghellor, Cyfarwyddydd	Gorffennaf 2021	Ar waith

	cydymffurfio â'r Safonau priodol	yr Uned Farchnata a Chyfarwyddydd Rhagoriaith		
8.	Sefydlu prosesau recriwtio staff a fydd yn cydymffurfio â'r Safonau priodol	Cyfarwyddydd yr Uned Adnoddau Dynol	Ebrill – Gorffennaf 2021	Fel nodwyd uchod yn Nharged 1
9.	Sicrhau cynnydd o 10% yn nifer y gweithlu sy'n dysgu Cymraeg	Cyfarwyddydd Rhagoriaith a Rheolwr Dysgu a Datblygu	Gorffennaf 2021	Oherwydd y pandemig a llwyth gwaith aelodau o staff, mae wedi bod yn anodd iawn i gynyddu'r niferoedd sy'n dysgu Cymraeg
10.	Sicrhau cynnydd o 10% yn nifer y penodiadau Cymraeg o fewn y Brifysgol	Uwch-Gyfarwyddiaeth ac arweinwyr unedau	Gorffennaf 2021	Wrth symud tuag at edrych ar feysydd blaenoriaeth, bydd y Brifysgol yn penodi mwy o siaradwyr Cymraeg er mwyn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am yr adroddiad monitro hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r Brifysgol trwy anfon ebost at iaithgymraeg@pcydd.ac.uk